# Digwyddiadau – amodau a thelerau

## Archebu

Dim ond ar-lein trwy wefan Chwarae Cymru y gellir archebu ar gyfer digwyddiad. Bydd cyfranogwyr yn derbyn e-bost awtomatig ar unwaith yn cadarnhau bod yr archeb wedi ei derbyn.

JAnfonir cyfarwyddiadau ymuno tuag wythnos cyn y digwyddiad, yn cadarnhau amserau cychwyn / gorffen, y lleoliad neu fanylion eraill fel bo angen.

Bydd lleoedd cyfranogwyr i ddigwyddiadau'n cael eu rhannu ar sail cyntaf i'r felin. Nid yw cwblhau ffurflen archebu'n gwarantu y cewch le.

Cysylltwch gyda ni: ebost | 029 2048 6050 os na fyddwch wedi derbyn eich e-bost cadarnhau neu eich cyfarwyddiadau ymuno.

## Tâl

Bydd taliadau cyfranogwyr yn cyfrannu at gostau gweinyddol, y lleoliad, cinio a lluniaeth ac, os yn berthnasol, gostau hyfforddwyr neu hwyluswyr ac unrhyw ddeunyddiau a ddarperir gan Chwarae Cymru.

Os bydd cyfranogwyr yn canslo, codir y tâl canlynol:

- Mwy na chwe wythnos cyn y digwyddiad: ad-daliad llawn
- 4 – 6 wythnos: 25%
- 2 – 4 wythnos: 50%
- Llai na phythefnos: 100%
- Digwyddiadau am ddim - efallai y codir tâl gweinyddol os derbynnir rhybudd o ganslo llai na saith diwrnod cyn y digwyddiad, neu os na fyddwch yn mynychu'r digwyddiad.

Os bydd Chwarae Cymru'n canslo digwyddiad, rhoddir ad-daliad llawn ichi.

## Babi ar fraich rhiant

Mae Chwarae Cymru'n anelu i fod yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ac rydym yn cydnabod bod gan rieni a gwarcheidwaid ymrwymiadau teuluol ac, o ganlyniad, mae ein digwyddiadau a'n cyrsiau hyfforddi i gyd yn croesawu babanod ar fraich rhiant hyd at flwydd oed.

## Defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Mae Chwarae Cymru yn Rheolydd Data, wedi ei gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Mae Chwarae Cymru wedi ymrwymo i warchod eich data personol a fyddwn ni fyth yn gwerthu nac yn rhannu eich gwybodaeth gyda chwmnïau marchnata. Bydd Chwarae Cymru bob amser yn prosesu data personol yn gyfreithlon a byddwn yn deg ac yn agored ynghylch sut y byddwn yn gwneud hyn. Mae Polisi Preifatrwydd Chwarae Cymru'n dweud wrthych sut y byddwn yn casglu a storio eich data, pam ein bod ei angen a'r hyn y byddwn yn ei wneud gyda'r data yma.

Sylwer hefyd, at ddiben galluogi sefydliadau i rwydweithio, y bydd eich enw a'r sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli yn cael ei ryddhau i gyfranogwyr eraill, trefnydd y digwyddiad neu hwylusydd yr hyfforddiant.

**Trwy archebu lle yn un o ddigwyddiadau Chwarae Cymru, rydych yn cytuno i'r amodau a thelerau uchod.**

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif 1068926
© Chwarae Cymru